**System Gosb wedi ei Seilio ar Bwyntiau**

**Atgyfeiriad Llwybrau Addysgol**

Os mai honiad o Ymarfer Academaidd Annerbyniol a gadarnhawyd yw achos cyntaf, a mân y myfyriwr o dorri arfer academaidd **ym mlwyddyn gyntaf eu presenoldeb ym Mhrifysgol Aberystwyth**, a'i fod yn cyfeirio at gamgymeriad gwirioneddol, sy'n arwain at ymddygiad academaidd gwael yn hytrach nag ymddygiad academaidd annerbyniol, gall panel YAA / Cadeirydd y Bwrdd Arholi (neu enwebai) benderfynu cyfeirio'r achos i'r Llwybr Addysgol lle bydd y myfyriwr

- yn cael eu gwahodd i gwblhau'r cwrs uniondeb academaidd ar-lein (https://libguides.aber.ac.uk/referencing, a/neu https://www.aber.ac.uk/en/is/help/ai/ os yw'n briodol) o fewn cyfnod penodol o amser (pum diwrnod gwaith fel arfer) a darparu tystiolaeth o gwblhau (ar gael ar BlackBoard).
- yn gorfod mynychu unrhyw sesiynau ymarfer academaidd da pellach yn ôl cyfarwyddyd gan eu hadran academaidd.

Os yw'r myfyriwr yn cwblhau'r camau hyn o fewn yr amserlen a nodwyd, ni ddylid rhoi unrhyw gosb, a dylid marcio'r asesiad gan ddilyn y meini prawf marcio adrannol; os nad ydynt yn gwneud hynny, dylai'r adran gyfeirio'r myfyriwr yn ôl at y Gofrestrfa Academaidd a gellir dyfarnu'r gosb wreiddiol a fyddai wedi cael ei rhoi o dan y system seiliedig ar bwyntiau yn ddiweddarach.

**Os nad yw'r atgyfeiriad llwybr addysgol yn briodol, dilynwch y System gosb wedi ei seilio ar bwyntiau isod.**

**System Gosb wedi ei Seilio ar Bwyntiau**

| | |
|---|---|
| **A: disgrifiad o'r ymddygiad academaidd annerbyniol** | |
| i) Achosion blaenorol* *(yn cynnwys ymchwiliad gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi)* | |
| 100 pwynt | Y tro cyntaf |
| 150 | Yr eildro |
| 200 | Y trydydd tro ac unrhyw achos pellach |
| (ii) Hyd a lled / difrifoldeb yr YAA | |
| 20 | Llên-ladrad sy'n llai na 20% o asesiad |
| | Cydgynllwynio sy'n effeithio llai na 20% o asesiad |
| | Defnydd heb ei gydnabod o DA sy'n effeithio ar lai nag 20% o'r aseiniad |
| | Cyflwyno deunyddiau anawdurdodedig neu ddyfeisiadau electronig anawdurdodedig i ystafell arholiad, dim tystiolaeth fod cysylltiad gyda'r papur arholiad |
| | Ailgylchu data neu destun mewn mwy nag un asesiad, pan fo'r Adran wedi gwahardd hyn yn benodol |
| | Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddiadau ysgrifenedig i ymgeiswyr mewn arholiadau ffurfiol, neu gyfarwyddiadau ar lafar gan oruchwylwyr yr arholiadau |
| 130 | Llên-ladrad sydd rhwng 20% a 50% o asesiad |

| | |
|---|---|
| | Cydgynllwynio sy'n effeithio rhwng 20% a 50% o asesiad |
| | Defnydd heb ei gydnabod o DA sy'n effeithio ar rhwng 20% a 50% o'r aseiniad |
| | Uwchlwytho aseiniadau i safleoedd rhannu ffeiliau academaidd |
| 160 | Llên-ladrad sy'n fwy na 50% o asesiad |
| | Cydgynllwynio sy'n effeithio mwy na 50% o asesiad |
| | Llên-ladrad data neu gôd sydd o bwysigrwydd allweddol i asesiad |
| | Cyflwyno deunyddiau anawdurdodedig i ystafell arholiad, sy'n berthnasol i destun yr arholiad, neu gyfathrebu trwy ddull electronig mewn arholiad |
| | Cyflwyno dyfeisiadau electronig i ystafell arholi, a thystiolaeth o ddefnydd posibl yn ystod arholiad |
| | Copïo oddi wrth ymgeisydd arall, neu gydgynllwynio gydag ymgeisydd arall yn ystod arholiad |
| | Cynhyrchu a chyflwyno sgript arholiad trwy ddulliau anawdurdodedig |
| | Ffugio data, honiadau ffug o gyflawni arbrofion, arsylliadau, cyfweliadau neu ddulliau eraill o gasglu data |
| | Defnydd heb ei gydnabod o DA sy'n effeithio ar fwy na 50% o'r aseiniad |
| 220 | Ffugio bod yn ymgeisydd arholiad |
| | Cyflwyno tystiolaeth wedi ei ffugio i fwrdd arholi |
| 240 | Cyflwyno aseiniad a brynwyd o felin draethodau neu wasanaeth rhith-ysgrifennu |
| (iii) Lefel Astudio | |
| 120 | Rhan Un Israddedig (a phob myfyriwr ar Raglenni Cyfnewid) |
| 120 | Rhan Dau Israddedig yn eu blwyddyn gyntaf yn PA nad ydynt wedi cwblhau Rhan Un mewn Sefydliad Addysg Uwch arall yn y DU |
| 180 | Rhan Dau Israddedig |
| 220 | Uwchraddedig trwy Gwrs |

* Nid yw nifer yr achosion yn cynnwys cyhuddiadau yr ymchwiliwyd iddynt gan y Dirprwy Gofrestrydd (Gweinyddiaeth Myfyrwyr)

**Adran 5: Tabl Cosbau**

| **Adran 5a: Cosbau** pob achos ac eithrio'r rhai yr ymchwiliwyd iddynt gan y Cofrestrydd Cynorthwyol (Arholiadau) | |
|---|---|
| Pwyntiau | Cosbau |
| 240 – 299 | Rhybudd yn unig, heb gosb ffurfiol o dynnu marciau, er y bydd asesiadau yn cael eu marcio yn unol â meini prawf adrannol |
| 300 – 379 | Marc uchaf o 39 ar gyfer yr asesiad (49 os yw'r marc pasio yn 50), ailsefyll y modiwl am farc wedi'i gapio* os methir y modiwl (P neu F) |

| | |
|---|---|
| 380 – 429 | Marc o sero ar gyfer yr asesiad, ailsefyll y modiwl am farc wedi'i gapio* os methir y modiwl (P neu F) |
| 430 – 479 | Dyfernir marc o sero i'r modiwl, ceir ailsefyll y modiwl ar gyfer marc wedi'i gapio** (P neu F). Ni fydd marciau ar gyfer elfennau a basiwyd yn cael eu cario ymlaen; rhaid ailsefyll/ailgyflwyno pob elfen. |
| 480 – 519 | Marc o sero ar gyfer y modiwl, dim ailsefyll (N) |
| 520+ | Marc o sero ar gyfer pob modiwl o fewn y semester (yn cynnwys modiwlau tenau), dim ailsefyll (N) |

**yn amodol ar gyfleoedd i ailsefyll

| Adran 5b: Cosbau am gyhuddiadau yr ymchwiliwyd iddynt gan y Cofrestrydd Cynorthwyol (Arholiadau) | |
|---|---|
| | Cosb |
| Y Tro Cyntaf | Rhybudd yn unig, heb gosb ffurfiol o dynnu marciau, er y bydd asesiadau yn cael eu marcio yn unol â meini prawf adrannol |
| Yr Eildro neu unrhyw achos pellach | Marc uchaf o 39 ar gyfer yr asesiad (49 yn achos modiwlau lefel 'M'), ailsefyll am farc wedi'i gapio** os methir y modiwl (P neu F) |

**yn amodol ar gyfleoedd i ailsefyll

---

**Cadarnhau marc y modiwl**

Pan fo honiadau o YAA yn cael eu datrys cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi perthnasol, dylid cadarnhau'r marciau a'r arwyddion ailsefyll yn y ffordd arferol yng nghyfarfod Bwrdd Arholi'r Senedd. Fodd bynnag, mewn achosion pan fo canlyniadau'n cael eu hatal gan y Bwrdd hyd y bydd honiad o YAA wedi'i ddatrys, dylai'r Adrannau, pan fo cosb wedi'i chymeradwyo, gyflwyno ffurflen newid marc i gadarnhau'r marc a'r arwydd ailsefyll ar gyfer y modiwl(au) dan sylw er mwyn cael y gymeradwyaeth briodol ac fel y gellir rhyddhau'r canlyniadau i'r myfyriwr. **Noder hefyd na ddylid cyflwyno marciau modiwlau i fyrddau arholi hyd nes bod y Gofrestrfa Academaidd wedi cadarnhau'r gosb ar gyfer YAA.**